

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol

Dyddiad 09 / 02 / 2021

Amser 10.00 - 11.30

Lleoliad Microsoft Teams

Yn bresennol Y Cynghorydd Bobby Feeley (BF); y Cynghorydd Barry Mellor (BM); y Cynghorydd Brian Jones (BJ); y Cynghorydd Graham Timms (GT); y Cynghorydd Joe Welch (CJW); y Cynghorydd Tony Thomas (TT); y Cynghorydd Arwel Roberts (AR).

Ymddiheuriadau Judith Greenhalgh (JG), Nicola Kneale (NK); y Cynghorydd Gwyneth Kensler (GK); y Cynghorydd Meirick Ll. Davies (MD).

Hefyd yn bresennol Swyddogion Cefnogi: Helen Vaughan-Evans (HVE); Liz Wilcox-Jones (LWJ); Tom Booty (TB); Howard Sutcliffe (HS); Andrew Cutts (AC); Heidi Barton-Price (HBP); Joel Walley (JW); Tony Ward (TW); Eifion Jones CNC (EJ).

Arsylwyr sy'n Gynghorwyr: Y Cynghorydd Ellie Chard (EC); y Cynghorydd Alan James (AJ); y Cynghorydd Martyn Holland (MH).

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd GT, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod, a nodwyd yr ymddiheuriadau.

2. Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 09.02.21

Adolygwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a rhoddwyd diweddariad gan HVE. Gweler y tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i wneud.

CAM GWEITHREDU	DIWEDDARIAD
<p>RP – darparu manylion cyswllt ar gyfer arweinydd defnydd tir yn Llywodraeth Cymru er mwyn i gynrychiolwyr CSDd gael cyfarfod.</p>	<p>AR Y GWEILL</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae HVE wedi gofyn a cheisio cael gafael ar e-bost i RP.
<p>HVE – gwneud newidiadau i'r llythyr at Lesley Griffith AS a'i anfon at BJ i'w adolygu.</p>	<p>AR Y GWEILL</p>
<p>GT fel Cadeirydd y Gweithgor, i awgrymu wrth Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu am y cyfle i adroddiad ysgrifenedig gan y gwasanaeth Arlwyo Ysgolion fynd gerbron y Pwyllgor Craffu ym mis Medi/Hydref 2021 ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran carbon isel a lleihau'r defnydd o blastig untro.</p>	<p>AR Y GWEILL</p>
<p>HVE – gwneud newidiadau i'r ddogfen strategaeth yn sgil adborth y cyhoedd.</p>	<p>CWBLHAWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r strategaeth yn mynd gerbron y Cabinet ar 16 Chwefror i'w chymeradwyo, ac yn mynd gerbron y Cyngor ar 23 Chwefror i'w mabwysiadu.
<p>HVE – llunio a chyhoeddi Adroddiad Ymateb i'r Ymgynghoriad i'r cyhoedd.</p>	<p>CWBLHAWYD</p>

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 09.02.21

	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddwyd ddiwedd Ionawr.
<p>HVE i roi gwybodaeth i aelodau sefydlog y grŵp yma er mwyn iddynt e-bostio/annog cynghorwyr i archebu lle ar yr hyfforddiant erbyn 27 Ionawr.</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>CYNGHORWYR Y GRŴP HWN i annog cynghorwyr yn eu grwpiau gwleidyddol i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon.</p>	<p>AR Y GWEILL</p>
<p>HVE/LWJ – hyrwyddo'r llefydd sydd ar ôl i bob aelod staff o 28 Ionawr ymlaen.</p>	<p>AR Y GWEILL</p>
<p>HVE/LWJ i lunio cynllun newid ymddygiad a chyfathrebu ar gyfer 2021/22.</p>	<p>AR Y GWEILL</p>
<p>HVE i ganfod a oes Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Llifogydd yn cael ei ffurfio a phenderfynu pa aelodau o'r grŵp hwn ddylai gymryd rhan.</p>	<p>CWBLHAWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> Pwrpas: Archwilio'r dulliau posibl o gryfhau sianeli cyfathrebu ac adeiladu cysylltiadau gweithio effeithiol rhwng pawb a phob sefydliad y mae ganddynt gyfrifoldeb am reoli'r perygl o lifogydd o gwmpas afonydd a dyfrffosydd Sir Ddinbych. Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y gwaith hyd at y pwynt hwnnw erbyn diwedd 2021.

Materion yn codi

Gweithgor

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 09.02.21

Cafwyd trafodaeth ynghylch dyfodol y gweithgor yn y flwyddyn ariannol nesaf. Steve Price / Rhian Evans / y Cynghorydd Graham Timms i gyflwyno adroddiad yng nghyfarfod Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu mis Mawrth (11 Mawrth) gydag opsiynau posibl ynghylch y ffordd ymlaen o ran monitro / herio / cefnogi cynnydd yn y gwaith o gyflawni'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol. GT i arwain y grŵp hwn drwy'r opsiynau sy'n cael eu hystyried yng nghyfarfod 9 Mawrth.

Cytunodd BM fod yr agenda newid hinsawdd a newid ecolegol yn siwrne hir ac nad yw'n ymddangos yn iawn y bydd y cyfarfodydd hyn yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth.

Gofynnodd BF sut y byddai aelodau'n dilyn ac yn ymwneud â'r agenda os na fydd gweithgor. Nododd GT, petai'r Strategaeth yn cael ei chymeradwyo ar 23 Chwefror, y byddai Bwrdd y Cynllun Corfforaethol yn goruchwyllo'r gwaith o'i chyflawni.

Pwysleisiodd BJ fod yn rhaid i'r bobl iawn fod ar y bwrdd.

Hyfforddiant Llythrennedd Carbon

Canmolwyd yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar gyfer Llywodraeth Leol gan y rhai sydd wedi bod arno, ac anogwyd pob Cynghorydd i gadw lle os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'i hymrwymiad cyfreithiol i fod yn ddi-garbon net o ran allyriadau erbyn 2050, gan ddilyn chweched cyngor Cyllideb Garbon y Pwyllgor Newid Hinsawdd.

Sicrhaodd cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr gyllideb ar gyfer cyflawni Di-Garbon Net 2021/22, yn cynnwys cyllideb ar gyfer staff (1 x Rheolwr Rhaglen, 2 x Rheolwr Prosiect, 1 x Swyddog Cerbydau Trydan) a refeniw i ariannu benthyg ar gyfer prosiectau cyfalaf. Cyflawnir prosiectau yn y ffrydiau gwaith canlynol: Adeiladau, Teithio Fflyd, Teithio Di-fflyd, Gwastraff a Defnydd Tir.

Ymateb gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru / Llywodraeth Cymru (NMWTRAWG)

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 09.02.21

Trafodwyd ymateb gan NMWTRA/WG ynghylch y gwaith torri coed ar yr A5 a'r A494.

Trafododd y grŵp gynlluniau ailblannu NMWTRA/WG ac a oedd unrhyw synergedd gyda'n cynlluniau dal a storio carbon. Byddai'n dda cael gwybod beth, pryd ac ymhle y maent yn bwriadu ailblannu.

Trafodwyd Clefyd Coed Ynn. Awgrymodd TW y gallai'r prosiect clefyd coed ynn ddod yn ôl i'r grŵp hwn fel cam gweithredu ar yr agenda yn y dyfodol.

Rhoddodd AC wybod i'r grŵp fod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu set ddata er mwyn cadw cofnod o asedau byw y sir.

CAMAU GWEITHREDU:

- **GT** – gweithio gyda Rhian Evans a Steve Price ar opsiynau posibl ar gyfer dyfodol y gweithgor ar ôl mis Mawrth. Adrodd yn ôl i'r grŵp.
- **HVE** – ychwanegu dyfodol y gweithgor at agenda cyfarfod mis Mawrth.
- **HVE** – darparu rhestr o Gynghorwyr sy'n dal heb gadw lle ar yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar gyfer Cynghorwyr y grŵp hwn er mwyn eu hannog i gofrestru.
- **HS/LWJ** – ymateb i lythyr NMWTRA/WG ynghylch torri coed ar yr A5/A494.
- **HVE** – ychwanegu'r prosiect clefyd coed ynn fel eitem bosib i'w rhoi ar agenda cyfarfod yn 2021/22, yn dibynnu ar ddyfodol y grŵp, fel yr awgrymodd TW.

3. Thema: Defnydd Tir er budd dal a storio carbon a gwelliant ecolegol

Cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb gydag Eifion Jones (Ymgynghorydd arbenigol, creu coetiroedd), Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dysgu am Raglen Creu Coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sut i fesur effaith amsugniad carbon ar lefel prosiect.

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 09.02.21

Eglurodd Eifion Jones o Gyfoeth Naturiol Cymru i'r grŵp beth oedd Rhaglen Creu Coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Siaradodd am: Y goeden iawn, y lle iawn, y rhesymau iawn.

8 peth i'w hystyried:

- Cyllid amgen
- Adolygu Rheoliadau
- Ymestyn stad goetir Llywodraeth Cymru – prynu tir / prydles hirdymor
- Coed canmlwyddiant – graddfa fechan
- Plant!– plannu coeden am bob plentyn yng Nghymru
- Gwasanaeth Gwirio Glastir – y goeden iawn, y lle iawn
- Coedwig Genedlaethol – LIC yn ymrwymedig i ddatblygu'r polisi
- Coed trefol ac Isadeiledd Gwyrdd

3 ffactor pwysig:

- Tir
- Pobl (i blannu'r coed)
- Buddsoddiad

Wrth greu coetir newydd:

- Cynlluniwch – beth a ble
- Ymgynghorwch – pwy – budd-ddeiliaid y presennol a'r dyfodol
- Ymgysylltwch – sut – cyllid a chefnogaeth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r model CARBINE er mwyn mesur cyflenwadau carbon clystyrau a choedwigoedd. Mae'n rhaid defnyddio'r offeryn modelu carbon cywir ar gyfer eich anghenion. Mae tua 60 ar gael.

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 09.02.21

Cwestiynau ac Atebion

GT – Faint o dir y mae CNC wedi'i gaffael? – Tua 2000 hectar, yn codi i 4000 cyn gynted â phosibl, ond y nod yw caffael cymaint â phosibl

BF – A oes unrhyw dystiolaeth fod plannu coed mewn gerddi ac ar dyddynnod yn helpu gyda'r nod dal a storio carbon? - Mae gan Goed Cadw gynllun ar hyn o bryd sy'n gwneud hynny, ac mae CNC yn gweithio gyda nhw ar y pecynnau coed. Bwriedir cynyddu llwyddiant y coed hynny pan gânt eu plannu.

HVE – a oes cyllid i gefnogi plannu coed? – Mae Coed Cadw'n darparu cyllid i blannu hyd at 3 hectar o goed. Mae'n bosibl tanysgrifio i sefydliad o'r enw 9 Trees sy'n ceisio plannu 9 coeden am bob unigolyn, a chynnal y coed hynny ar ôl iddynt gael eu plannu.

AR – Mae gan Gyngor Sir Ddinbych amgylchedd amrywiol. Sut gallwn ni adnabod ardaloedd addas i greu coetiroedd? – Y mae Map Cyfleoedd Coetir sy'n dangos lle mae greu coetiroedd yn addas a lle nad yw'n addas.

MH – beth ydym ni'n ei wneud i ddiogelu coetiroedd sy'n bodoli eisoes? - Cytuno'i bod yn allweddol cynnal yr hyn sydd gennym. Cyfle gwych gyda Choedwig Genedlaethol Cymru a chreu cyswllt â hynny. Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar raglen y Goedwig Genedlaethol yn hydref 2021.

MH – A ydym ni'n siarad â chwmnïau chwareli ynghylch troi'r ardaloedd hyn yn goetiroedd? – Mae'r safleoedd hyn yn aml yn gynefinoedd i lawer o rywogaethau felly byddai'n rhaid inni edrych ar bob safle'n unigol er mwyn gweld a yw plannu coed yn addas yn yr ardaloedd hyn.

HS – Gorchmynion Diogelu Coed – Mae'n bwysig addysgu tîrfeddianwyr er mwyn iddynt ystyried coed fel asedau yn hytrach nag fel problemau.

LWJ – a ellir plannu coeden am bob plentyn yn Sir Ddinbych? – Cadarnhaodd HS fod Garry Davies eisoes yn arwain cynllun yn Sir Ddinbych o'r enw Prosiect PLANT – 18,000 o goed erbyn diwedd Mawrth 2022.

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 09.02.21

Trafodaeth am ystyriaethau Defnydd Tir er mwyn i Gyngor Sir Ddinbych gyrraedd ein hamcanion i fod yn ddi-garbon net ac yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 – Crynodeb o sefyllfa Sir Ddinbych

Nododd TB fod yn rhaid inni ddal a storio llawer mwy o garbon nag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd os ydym am gyrraedd ein targed o fod yn ddi-garbon net erbyn 2030.

Ar ôl y cyfarfod cychwynnol mae TB a swyddogion eraill wedi datblygu matrices drafft i fod yn ganllaw i gefnogi gwneud penderfyniadau ar gaffael a chael gwared ar dir yn y sir er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o gyfleoedd i ddal a storio carbon a gwneud gwelliannau ecolegol.

Y pwyntiau allweddol a ystyrir yw: potensial dal a storio carbon, bioamrywiaeth, lleihau'r perygl o lifogydd.

Y syniad yw y byddai'r matrices yn cael ei ddefnyddio gan y grŵp o swyddogion er mwyn edrych ar dir posibl a'i sgorio er mwyn cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynghylch caffael a chael gwared ar safleoedd.

Mae angen ystyried y rheolaeth a'r cyfrifoldeb sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae tir yn cael ei roi ar brydles yn draddodiadol, ond mae hynny'n broblematic i'r agenda hon oherwydd er mwyn cyfri tuag at y nod o fod yn Ddi-Garbon Net mae'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych fod

CAMAU GWEITHREDU:

- **TB** i ddod â rhagor o wybodaeth ynghylch y matrices caffael a chael gwared ar dir i'r cyfarfod nesaf (ym mis Mawrth).

yn berchen ar y tir a'i gynnal.

TB yn hapus i egluro mwy yn y cyfarfod nesaf (ym mis Mawrth).

4. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac unrhyw fater arall

Aeth HVE â'r grŵp drwy'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 09.02.21

Cytunwyd y bydd y Thema'n adlewyrchu taith y grŵp ers datgan yr argyfwng, ac yn edrych ymlaen at flwyddyn o gyflawni'r Strategaeth.

Mis	Eitemau arfaethedig i'w trafod
9 Mawrth	<p><u>Thema: Ystyried cynnydd ac edrych ymlaen</u></p> <ul style="list-style-type: none">• Myfyrio ynghylch ystyriaethau'r Cyngor ynglŷn â'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol.• Ystyried taith y grŵp ers datgan yr argyfwng.• Cynlluniau ar gyfer llywodraethu a chraffu ar gynnydd y rhaglen hon wrth symud ymlaen• Gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf i'r Cyngor.